COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD MAWRTH, 9 EBRILL 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

RM James JE Lewis G Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Hussain a/ac MJ Kearn

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

129. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

130. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12/02/2019 fel cofnod cywir.

131. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNAI I'W HURIO'N BREIFAT

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i drwyddedu cerbyd hurio preifat.

Cais gan Christopher Jones oedd hwn i drwyddedu Ford Tourneo Custom â rhif cofrestru MM66 GMX fel cerbyd hurio preifat i gludo 8 person. Roedd wedi prynu'r cerbyd gan y perchennog blaenorol a chafodd ei gofrestru â'r DVLA am y tro cyntaf ar 21 Mawrth 31 Rhagfyr 2016.

Aeth aelodau'r Is-bwyllgor ati i archwilio'r cerbyd.

Dywedodd y Rheolwr Tîm (Trwyddedu) wrth yr aelodau bod y cerbyd wedi teithio 17,520 o filltiroedd hyd yma. Dywedodd nad oedd y cais yn cydymffurfio â'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu a hynny oherwydd y rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad. Nid oedd modd cludo cadeiriau olwyn yn y cerbyd, ond roedd canllawiau polisi penodol, a amlinellir ym mharagraff 4.4. o'r adroddiad, yn ymwneud â thrwyddedu cerbydau hurio preifat am y tro cyntaf er nad oeddent yn cydymffurfio â'r canllawiau polisi. Er gwybodaeth i'r Aelodau, roedd cofnod o'r ffaith bod y cerbyd wedi'i gynnal a'i gadw, dyddiedig 26 Chwefror 2019, ar gael, ac roedd hwn yn dangos bod y cerbyd wedi teithio 17,051 bryd hynny, ac roedd tystysgrif MOT dyddiedig 27 Chwefror 2019 hefyd ar gael, ac yn dangos yr un milltiroedd ar y cloc.

PENDERFYNWYD: Trafododd yr Is-bwyllgor y cais i gofrestru MM66 GMX fel cerbyd hurio preifat.

Nododd yr Aelodau nad oedd yn cydymffurfio â pholisi 2.1 oherwydd ei oed a'r milltiroedd ar y cloc.

Nododd yr Aelodau y gellid llacio'r polisi'n unol â pharagraff 2.2 o'r polisi a bod y canllawiau a nodwyd yn 2.2.5 yn gymwys, sef safon eithriadol y cerbyd, a hynny'r tu mewn a'r tu allan, a'r safonau diogelwch eithriadol. Gan hynny, cytunodd yr Aelodau i ganiatáu'r cais.

132. EITEMAU BRYS

Dim

133. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, o dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, a hynny pan fyddai'r Aelodau'n trafod yr eitemau a ganlyn gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio o dan Baragraff 12 yn Rhan 4 a/neu Baragraff 21 yn Rhan 5 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

Ar ôl cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, y dylid trafod yr eitemau a ganlyn mewn sesiwn breifat, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, a hynny oherwydd, ym mhob un o'r amgylchiadau'n ymwneud â'r eitemau hyn, ystyriwyd bod y budd cyhoeddus a oedd ynghlwm wrth barhau â'r eithriad yn drech na'r budd cyhoeddus a oedd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth, gan y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr dan sylw.

134. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO

135. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

136. CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

137. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRWR TACSI PRESENNOL